Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Flying Start Busy Butterflies Playgroup**

**Academi Dysgu Cymunedol Pilgwenlli**
**23-24 Temple Street**
**Casnewydd**
**NP20 2GW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Flying Start Busy Butterflies Playgroup

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaeth Gofal Plant a Chwarae Cyngor Dinas Casnewydd |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21 a 22 Mai 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae gan y plant ymdeimlad da o lesiant. Caiff eu hanghenion eu darparu ar eu cyfer ac maent yn cyfathrebu'n hyderus. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn mwynhau chwarae ochr yn ochr ag eraill. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth drwy chwarae.

Mae'r staff yn hynod ofalgar, cyfeillgar a sensitif i anghenion plant unigol. Mae'r staff yn ymrwymedig i gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau chwarae a dysgu â chydbwysedd rhagorol rhwng cyfleoedd dan arweiniad y plentyn a chyfleoedd dan arweiniad yr oedolyn. Mae gwaith cynllunio hynod effeithiol ar waith i sicrhau y caiff plant afael ar weithgareddau diddorol ac ysgogol i gefnogi eu dysgu.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, a chaiff asesiadau risg eu cynnal a'u rhoi ar waith yn effeithiol. Mae'r ardaloedd dan do ac awyr agored yn cynnig digon o leoedd i'r plant chwarae a dysgu. Mae cyfleusterau addas ar gael ac ar y cyfan, mae'r adnoddau yn hyrwyddo cyfleoedd dysgu a chwarae'r plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gref ar gyfer y dyfodol ac maent yn sicrhau eu bod yn rheoli eu tîm gan gynnig cymorth effeithiol a hyfforddiant parhaus. Maent yn llawn brwdfrydedd ac yn cynnig gofal o safon uchel iawn i'r plant. Maent wedi meithrin cydberthnasau gwych, cadarnhaol â'r rhieni, gofalwyr a'r gymuned. Maent yn cydweithio'n agos ag asiantaethau allanol er mwyn sicrhau bod pob plentyn sy'n cael gofal ganddynt yn cael gofal a chymorth effeithiol.

## Llesiant — Da

Mae gan y plant ymdeimlad da o lesiant ac maent yn hyderus i gyfleu eu hanghenion a'u syniadau, gan wybod y bydd y staff yn gwrando arnynt ac yn ymateb iddynt gyda gofal a diddordeb. Gwelsom blant tawelach yn dal dwylo gyda'r staff ac yn eu harwain at weithgareddau gwahanol yr oeddent eisiau chwarae gyda nhw. Mae'r plant yn symud o gwmpas yr amgylchedd yn rhydd, gan ddewis ble yr hoffent chwarae ac â beth dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus yn y lleoliad gan eu bod yn gyfarwydd â'r amgylchedd a'r arferion sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel. Er enghraifft, roedd y plant yn gwybod bod angen iddynt olchi eu dwylo wrth fynd i mewn i'r lleoliad a gwisgo'u cotiau cyn mynd tu allan. Gwelsom y plant yn chwarae ochr yn ochr â'r staff ac yn eu gwahodd yn frwdfrydig i chwarae gyda nhw. Maent yn gwneud ffrindiau gyda'r plant eraill, gan eu helpu i deimlo'n hapus. Mae'r plant yn mwynhau chwarae ochr yn ochr â'u ffrindiau, gan gwblhau gweithgareddau gyda'i gilydd, fel darllen llyfr, chwarae yn yr ystafell synhwyraidd a phaentio.

Mae'r plant yn dysgu i rannu'r gofod a'r adnoddau yn briodol. Maent yn rhyngweithio'n addas ar gyfer eu hoedran a'u camau datblygu, gan ddysgu i gydweithredu, rhannu a chymryd eu tro. Er enghraifft, gwnaethant gymryd eu tro gyda thegan synhwyraidd ac roeddent yn rhannu'r anifeiliaid yn y tywod. Maent yn parchu ei gilydd a'r adnoddau, gan eu defnyddio'n briodol a helpu i dacluso pan ofynnir iddynt. Mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i ganmoliaeth ac roeddent yn gwenu'n falch pan ddywedwyd *“Well done for waiting your turn”* wrthynt pan oeddent yn sefyll mewn llinell i ddefnyddio'r llithren.

Mae'r plant yn dangos mwynhad yn ystod eu profiadau chwarae a dysgu. Mae bron pob plentyn yn ymgysylltu â'r gweithgareddau a ddewisir ganddynt am gyfnod priodol o amser ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Er enghraifft, mae'r plant yn treulio amser yn chwarae'r offerynnau cerdd yn yr ardd, gan wrando ar y seiniau maent yn eu gwneud wrth edrych ar eu hunain yn y drych. Caiff y plant nifer o gyfleoedd i ddilyn eu syniadau a'u diddordebau eu hunain. Gwelsom y plant yn chwarae wrth y bwrdd crefftau yn tynnu lluniau o gymeriadau ac yn eu disgrifio'n fanwl wrth i aelod o'r staff ofyn cwestiyanu iddynt am eu llun.

Caiff y plant gyfleoedd da i ddatblygu annibyniaeth. Maent yn cofrestru eu hunain ar ddechrau'r sesiwn, yn dewis ac yn arllwys eu dŵr neu eu llaeth eu hunain adeg byrbryd ac mae'r plant hŷn yn helpu i newid cewynnau drwy nôl eu cewynnau eu hunain allan o'u bagiau. Mae'r plant yn cael cynnig dewis o fwyd iach yn ystod amser byrbryd. Gwelsom rai o'r plant yn gofyn am fyrbryd a dywedwyd wrthym am aros ychydig nes i ofod ddod yn rhydd. Roedd hyn yn golygu bod rhai o'r plant yn siomedig yn ystod amser byrbryd gan fod yn rhaid iddynt aros mwy nag eraill. Mae'r plant yn hyderus wrth fynd at adnoddau a gweithgareddau yn annibynnol wrth archwilio'r lleoliad.

## Gofal a Datblygiad — Rhagorol

Mae'r staff yn gweithredu polisïau'n effeithiol ac yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Mae'r staff yn nodi risgiau ac yn rheoli hyn mewn modd rhagweithiol ac effeithiol. Mae gan y staff ddealltwriaeth drylwyr o'u rôl o ran amddiffyn plant a gwnaethant ateb cwestiynau diogelu yn hyderus. Mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ac wedi cael cyfleoedd i fynychu rhagor o gyrsiau. Er enghraifft, mae aelod o'r staff wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf ysgol goedwig yn ddiweddar er mwyn paratoi i fynd â'r plant i ardal awyr agored leol. Mae trefniadau ar waith i sicrhau y gellir rhoi cyfrif am y plant a'u bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Er enghraifft, caiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd, a chedwir cofrestrau presenoldeb ar gyfer y plant a'r staff.

Mae gan y staff weithdrefnau effeithiol ar waith i hybu ffordd iach o fyw. Trefniadau glanhau gan gynnwys golchi dwylo yn rheolaidd a sychu byrddau yn rheolaidd. Mae'r staff yn dilyn arferion effeithiol er mwyn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i fynd allan i'r ardal awyr agored er mwyn iddynt fod yn egnïol a chael awyr iach. Mae'r byrbrydau a ddarperir yn faethlon ac mae'r staff yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o ofynion deietegol y plant ac yn bodloni'r gofynion hynny. Fodd bynnag, nid oes gan y lleoliad bolisi sy'n amlinellu'r weithdrefn ar gyfer rheoli alergeddau.

Mae'r staff yn gwneud pob ymdrech i wrando'n astud ac i gyfathrebu'n glir â'r plant. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd, caredigrwydd ac amynedd. Gwelsom y staff yn cysuro'r plant a oedd yn newydd i'r lleoliad ac yn parhau i setlo drwy eu cofleidio, siarad yn bwyllog â nhw a rhoi eu hoff degan iddynt. Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn rhoi strategaethau ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Maent yn canmol y plant am ddal ati ac am ymddwyn yn dda, gan sicrhau bod y plant yn deall pam eu bod yn cael eu canmol, *"Da iawn, great turn taking and well done for sharing your toy."* Caiff gweithredoedd cadarnhaol eu dathlu mewn modd ystyriol drwy gamau fel staff yn dewis pa blant sy'n cael 'gwobr Pili Pala' unwaith yr wythnos, er mwyn dathlu cyflawniadau unigol.

Mae'r staff yn ymrwymedig i gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau chwarae a dysgu â chydbwysedd priodol rhwng cyfleoedd dan arweiniad y plentyn a chyfleoedd dan arweiniad yr oedolyn. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'r plant ac yn chwilio am gyfleoedd i ehangu eu dysgu. Mae'r staff wedi ymgorffori'r Cwricwlwm i Gymru yn eu cynlluniau newydd. Maent yn cael cyfarfodydd pwrpasol i gynllunio a thrafod gweithgareddau a fydd yn datblygu cyfleoedd dysgu i'r plant. Gwelsom gyfarfod staff yn cael ei gynnal cyn i'r plant gyrraedd i sicrhau bod gan y staff wybodaeth gyfredol am anghenion ychwanegol. Mae'r staff yn cydnabod pan y gallai fod gan blentyn anghenion ychwanegol ac yn cymryd camau cyflym, pwrpasol, gan wneud defnydd effeithiol o'r gwasanaethau cymorth rhagorol sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn cynnwys cydlynydd anghenion ychwanegol a chefnogaeth gan asiantaethau allanol.

## Yr Amgylchedd Da

Caiff yr amgylchedd ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'n cynnig awyrgylch cynnes a chroesawgar i'r plant o'r eiliad y byddant yn cyrraedd. Mae polisïau cynhwysfawr ar waith ac maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel. Mae'r staff yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol effeithiol a chywir, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae trefniadau glanhau cyson yn arwain at amgylchedd dan do sy'n lân ac yn ddymunol. Mae arferion rheoli heintiau yn llwyddo i leihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf. Fodd bynnag, er bod y staff yn cael gwared ar wastraff yn effeithiol yn y biniau pedal, gwelsom y plant yn codi'r caead gyda'u dwylo, yn hytrach na defnyddio'r pedalau.

Mae'r brif ystafell chwarae yn olau, yn llachar ac yn hygyrch i bawb. Mae'r arddangosiadau deniadol yn dathlu gwaith y plant ac yn rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae'r ystafell synhwyraidd yn cynnig amgylchedd ysgogol a all hefyd fod yn ardal lonydd a thawel os oes angen. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn cael ei defnyddio yn gyson bob dydd ac mae'n estyniad i'r amgylchedd dysgu. Mae gan yr arweinwyr gynlluniau i fynd i randir cymunedol lleol yn rheolaidd a fydd yn cynnig rhagor o gyfleoedd i fynd i le cyfoethog yn yr awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu dodrefn, teganau a chyfarpar o ansawdd da, a hynny dan do ac yn yr awyr agored, er mwyn ennyn diddordeb a dychymyg y plant. Gwnaeth y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weithredu'n gyflym i symud adnodd y nodwyd nad oedd yn briodol i blant bach. Ar y cyfan, mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau ysgogol ar gyfer pob oedran a cham datblygu. Er enghraifft, gwelsom weithgareddau chwarae rôl, gweithgareddau synhwyraidd, gweithgareddau byd bach, gweithgareddau chwarae corfforol a gweithgareddau creadigol. Mae'r adnoddau bywyd go iawn a naturiol sydd yn yr ardal chwarae dan do yn gyfyngedig. Gall y plant gael gafael ar y teganau a'r adnoddau yn hawdd, gan eu bod yn cael eu storio ar lefel isel neu o fewn eu cyrraedd. Roedd arddangosiadau Cymraeg wedi'u gosod drwy'r lleoliad er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg, yn ogystal ag adnoddau amrywiol sy'n dathlu cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Gwelsom amrywiaeth o lyfrau amlddiwylliannol, doliau, gwisgo i fyny ac arddangosiadau sy'n cynrychioli ein cymuned amrywiol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Rhagorol**

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gref a gaiff ei rhannu ag eraill. Mae ganddynt ddatganiad o ddiben manwl ac effeithiol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag Arolygiaeth Gofal Cymru ac maent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am unrhyw newidiadau/diweddariadau yn y lleoliad. Maent yn sicrhau bod yr holl gofnodion gofynnol yn drefnus ac yn gyfredol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gosod disgwyliadau uchel ar eu staff ac yn arwain drwy esiampl. Maent yn dangos brwdfrydedd a chymhelliant i gynnig safonau uchel i'r plant sy'n mynychu'r lleoliad. Ceir adroddiad myfyriol ar ansawdd y gofal, sy'n cynrychioli safbwyntiau'r plant, y rhieni a'r staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio gyda chlwstwr o leoliadau yn rheolaidd i gymell gwelliant ac i gynnal gofal plant o safon uchel. Mae ganddynt oruchwyliaeth dda o'r hyn sy'n digwydd yn y lleoliad, er enghraifft, caiff damweiniau a digwyddiadau eu monitro'n rheolaidd er mwyn i unrhyw faterion gael eu nodi a'u datrys yn brydlon.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn er mwyn diogelu'r plant ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. Ceir proses sefydlu fanwl ar gyfer staff a rhoddir goruchwyliaeth ac arfarniadau rheolaidd i sicrhau bod y staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau. Mae'r cofnodion a'r sgyrsiau gydag aelodau o'r staff yn dangos bod y prosesau hyn yn ystyrlon ac yn gefnogol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnodion dyddiol o bresenoldeb a rotas staff, sy'n dangos bod digon o staff i ofalu am y niferoedd o blant sy'n bresennol bob amser. Dywedodd y staff fod yr arweinwyr yn hawdd iawn mynd atynt, eu bod yn cyfathrebu'n dda ac yn eu cefnogi'n dda yn eu rolau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin cydberthnasau ystyrlon a chadarnhaol â'r rhieni a'r gofalwyr. Mae systemau ardderchog ar waith i roi gwybodaeth i'r rhieni am yr amser y mae eu plentyn yn ei dreulio yn y lleoliad. Defnyddir ap cyfathrebu gyda chyfleuster cyfieithu i sicrhau y gall rhieni gael gafael ar wybodaeth yn eu dewis iaith. Soniodd y rhieni am y ffordd y mae staff yn cyfathrebu'n effeithiol a'u bod ar gael bob amser i siarad ar y ffôn neu wrth y drws adeg gollwng a chasglu. Mae'r aelodau o staff amlieithog yn defnyddio'u sgiliau iaith i gyfathrebu â'r rhieni a'r plant ble bynnag y bo'n bosibl. Dywedodd y rhieni wrthym pa mor gefnogol a pharod eu cymwynas oedd y staff, a chymaint yr oedd eu plant yn mwynhau mynychu. Maent yn eithriadol o hapus â'r ffordd y caiff annibyniaeth eu plant ei meithrin a'i hannog ac yn teimlo bod eu plant yn ffynnu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn manteisio'n llawn ar amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael ar garreg eu drws i wella dysgu'r plant yn y byd go iawn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 12 - Bwyd a diod | Adolygu'r gweithdrefnau byrbryd i alluogi mwy o blant i fwyta pan fyddant eisiau yn ystod adegau prysur. |
| Safon 12 - Bwyd a diod | Llunio polisi alergedd ar gyfer y lleoliad |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Cynyddu'r ystod o adnoddau bywyd go iawn a naturiol sydd ar gael drwy'r lleoliad. |
| Safon 23 - Cyfarpar | Sicrhau bod yr holl adnoddau yn briodol ar gyfer oedran y plant |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Annog y plant i ddefnyddio'r biniau mewn modd hylan drwy ddefnyddio pedalau troed. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/06/2024